Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | Skills Competition Wales

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# Competition Brief

## Competition title

Inclusive Hairdressing

## Competition overview

Inclusive Hairdressing Competition.

**Test: Long Hair Fashion Style**

Competitors will be required to dress long hair during the competition.

Competitors have a free choice of Long Hair Design, which may consist of up-style, down-style or combination of both

All competitors will be required to bring ALL required tools and equipment, including all styling products.

All competitors will need to bring the required Mannequin heads and a suitable Tripod.

You will be required to bring the following Mannequin Heads

**1 x TH1137**

All mannequin heads are available from Banbury Postiche ( www.banburypostiche.co.uk)

## Entry criteria

This competition is for learners working at Entry Level 3.

Competitors must be 16 years of age or over.

## Number by location/organisation

Maximum number of entries by location/organisation:

2 per location/3 per organisation

## Brief

Specific competition content and activities on the day to be outlined.

**Test 1: Long Hair Fashion Style 2 HOURS**

Competitors will be required to dress long hair during the competition.

Competitors have a free choice of Long Hair Design, which may consist of up-style, down-style or combination of both

**NO** colour is to be used for this skill test

Competitors will be required to carry out their look on mannequin head **TH1137** available from Banbury Postiche. (www.banburypostiche.co.uk).

No dressing or draping of the mannequin is allowed.

No cutting of the mannequin is allowed.

**Judges will award points for:**

- Hairstyle
- Ornamentation
- Styling & Finishing
- Continuity of Design

**Hairstyle**

- Shape
- Style
- Balance
- Creativity
- Reflecting current fashion trend

**Finish**

- Inspiration and creativity
- Cleanliness of finish
- Balance & Shape

**Continuity of Design**

- Overall design shows a continuity in all aspects and a degree of difficulty.
- Balance
- Total Look
- Continuity of all elements (textures / shape)

## Infrastructure List

PPE required to be provided by competitor

## Competition rules

**Competition specific rules**

**Competitors MUST bring the correct mannequin head for the competitions, as referenced in the competition description, from Banbury Postiche. No other mannequin heads are allowed to be used**

- Health and safety must be adhered to at all times throughout the competition.
- No backcombing should be showing except the effect forms part of the finished look and this is clearly reflected.
- No pins or bands showing.
- The hair may be styled using a free choice of tools.
- All styling products are allowed.

- All styling tools are allowed.
- All finishing techniques are accepted.
- Finish should reflect the style created.
- No added hair is allowed or ornamentation made from added hair.
- No makeup may be added to the mannequins.
- No jewellery may be added at any time.
- No dressing or draping of the mannequin is allowed.
- No cutting of the mannequin is allowed.
- On completion of the style, only ends may be cleaned with scissors, if desired.
- Competitors will have 2 hours to complete their task.
- Verbal support can be given to competitors at the start of the task, but no physical help can be given.
- The judges' decision is final.

**Generic competition rules**

- Mobile phones to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and assessment

Brief breakdown of marking and assessment.

**Ladies Long Hair Fashion**

| | |
|---|---|
| Style / Design | 40% |
| Finish | 40% |
| Continuity of Design | 20% |
| **Total** | **100%** |

The tests will be assessed and marked in accordance with the general and specific competition rules.

The criteria for assessment are as set out on the attached forms. For all criteria and their aspects the following marking scale will be used:

1. Does not represent Industry Standard in any aspect
2. Represents minimum Industry Standard in all aspects
3. Mostly represents minimum Industry Standards, with a few areas of exceptional performance above Industry Standard
4. Fully represents exceptional performance above Industry Standard in all aspects

Once marks have been agreed for each aspect of criterion, for each competitor, these will be converted to obtain an individual weighted score.

A panel of judges have been drawn from industry, colleges and training providers. The judges' decisions will be independently moderated and quality assured before being confirmed.

## Feedback and recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition. (Written feedback will not be provided)

No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

Certificates of Participation will be issued on the day.

Medallists will be invited to a Celebration Event which will be held on 19th March 2020 at Sophia Hall, Sophia Gardens, Cardiff CF11 9XR from 12pm to 5 pm, where the First, Second and Third Awards will be presented https://www.sophiagardens.wales/venue/the-sophia-hall.html

## Competition Lead

**Lead Contact**

For general information about competitions, please contact

Michelle Jones 01978 267105 / 01978 267654 michelle.jones@cambria.ac.uk

Rona Griffiths 07730192700 rona.griffiths@cambria.ac.uk

Briff y Gystadleuaeth

| Teitl y gystadleuaeth |
|---|
| Trin Gwallt Cynhwysol |

## Trosolwg o'r gystadleuaeth

Cystadleuaeth Trin Gwallt Cynhwysol

**Prawf: Steil Ffasiwn Gwallt Hir**

Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr drin gwallt hir yn ystod y gystadleuaeth.

Mae cystadleuwyr yn rhydd i ddewis y Dyluniad Gwallt Hir, a all gynnwys steil i fyny ar y pen, i lawr neu gyfuniad o'r ddau

Bydd yn ofynnol i'r holl gystadleuwyr ddod â'r HOLL offer a chyfarpar angenrheidiol, gan gynnwys pob Cynnyrch steilio.

Bydd angen i bob cystadleuydd ddod â'r pennau Mannequin angenrheidiol a thrybedd addas. Bydd yn ofynnol i chi ddod â'r Pennau Mannequin canlynol

**1 x TH1137**

Mae'r holl bennau mannequin ar gael o Banbury Postiche ( www.banburypostiche.co.uk)

## Meini prawf cystadlu

Mae'r gystadleuaeth hon ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar Lefel Mynediad 3. Mae'n rhaid i gystadleuwyr fod yn 16 oed neu hŷn.

## Nifer fesul lleoliad/sefydliad

Uchafswm y cystadleuwyr fesul lleoliad/sefydliad:
fesul lleoliad / fesul sefydliad

## Briff

Cynnwys penodol y gystadleuaeth a'r gweithgareddau ar y dydd i'w hamlinellu.

**Prawf 1: Steil Ffasiwn Gwallt Hir 2 AWR**

Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr drin gwallt hir yn ystod y gystadleuaeth.

Mae'r cystadleuwyr yn rhydd i ddewis y Dyluniad Gwallt Hir, a all gynnwys steil lle mae'r gwallt i fyny, neu i lawr neu gyfuniad o'r ddau.

**NI** chaniateir defnyddio lliw ar gyfer y prawf sgil hwn.

Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr gyflawni eu hedrychiad ar ben mannequin **TH1137** sydd ar gael o Banbury Postiche. (www.banburypostiche.co.uk).

Ni chaniateir gwisgo nac addurno'r mannequin.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ni chaniateir torri gwallt y mannequin.

**Bydd y beirniaid yn dyfarnu pwyntiau am:**

- Steil y gwallt
- Addurniad
- Steilio a Gorffennu
- Cysondeb y Dyluniad

**Steil y gwallt**

- Siâp
- Steil
- Cydbwysedd
- Creadigrwydd
- Adlewyrchu tueddiadau ffasiwn cyfredol

**Gorffeniad**

- Ysbrydoliaeth a chreadigrwydd
- Cywreinrwydd y gorffeniad
- Cydbwysedd a Siâp

**Cysondeb y Dyluniad**

- Y dyluniad cyffredinol yn dangos cysondeb ym mhob agwedd a graddfa'r anhawster.
- Cydbwysedd
- Edrychiad Cyflawn
- Cysondeb o ran yr holl elfennau (gweadau / siâp)

## Rhestr Seilwaith

Bydd yn ofynnol i'r cystadleuydd ddarparu cyfarpar diogelu personol

## Rheolau'r gystadleuaeth

**Rheolau penodol y gystadleuaeth**

**Mae'n RHAID i bob cystadleuydd ddod â'r pen mannequin cywir ar gyfer y gystadleuaeth, fel y nodir yn y disgrifiad o'r gystadleuaeth, o Banbury Postiche. Ni chaniateir defnyddio unrhyw bennau mannequin eraill.**

- Mae'n rhaid cadw at reolau iechyd a diogelwch bob amser drwy gydol y gystadleuaeth.
- Ni ddylai unrhyw ôl-gribo fod i'w weld heblaw bod yr effaith yn rhan o'r edrychiad gorffenedig a bod hyn yn amlwg i'w weld.
- Ni ddylai unrhyw binnau na bandiau fod yn dangos.
- Gellir defnyddio unrhyw fath o offer i steilio'r gwallt.
- Caniateir pob math o gynnyrch steilio.

- Caniateir pob offer steilio.
- Derbynnir pob techneg gorffennu.
- Dylai'r gorffeniad adlewyrchu'r steil a grëwyd.
- Ni chaniateir unrhyw wallt ychwanegol neu addurniadau a wnaed o wallt ychwanegol.
- Ni chaniateir rhoi colur ar y mannequin.
- Ni chaniateir ychwanegu gemwaith ar unrhyw adeg.
- Ni chaniateir gwisgo nac addurno'r mannequin.
- Ni chaniateir torri gwallt y mannequin.
- Pan fydd y steil wedi'i gwblhau, caniateir twtio blaenau'r gwallt yn unig gyda siswrn os dymunir gwneud hynny.
- Bydd gan gystadleuwyr 2 awr i gyflawni eu tasg.
- Gellir rhoi cyngor i'r cystadleuwyr ar lafar ar ddechrau'r dasg, ond ni chaniateir rhoi cymorth ymarferol.
- Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol.

**Rheolau cyffredinol y gystadleuaeth**

- Dylid diffodd ffonau symudol yn ystod y gystadleuaeth.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth gyda chlustffonau yn ystod y gystadleuaeth.
- Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ystod y gystadleuaeth at y panel beirniaid.
- Ni ddylai'r cystadleuwyr gyfathrebu gyda chystadleuwyr eraill yn ystod y gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd fydd cyrraedd ar amser ar gyfer pob rhan o'r gystadleuaeth. Pe baech yn cyrraedd yn hwyr, ni roddir amser ychwanegol ichi.
- Pe bai rhyw wall technegol ar eich offer, dylid rhoi gwybod i'r panel beirniaid yn syth. Bydd amser ychwanegol yn cael ei roi os bydd y gwall y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac asesu

Manylion cryno am y marcio a'r asesu.

**Steil Ffasiwn Gwallt Hir Merched**

| | |
|---|---|
| Steil / Dylunaid | 40% |
| Gorffeniad | 40% |
| Cysondeb y Dyluniad | 20% |
| **Cyfanswm** | **100%** |

Caiff y profion eu hasesu a'u marcio yn unol â rheolau cyffredinol a rheolau penodol y gystadleuaeth.

Nodir y meini prawf asesu yn y ffurflenni amgaeedig. Ar gyfer pob un o'r meini prawf ac agweddau ohonyn nhw, defnyddir y raddfa farcio a ganlyn:

1. Nid oes yr un agwedd yn bodloni Safonau'r Diwydiant
2. Mae pob agwedd yn bodloni isafswm Safonau'r Diwydiant
3. Yn arddangos isafswm Safonau'r Diwydiant gan fwyaf, gyda pherfformiad eithriadol sydd uwchlaw Safon y Diwydiant mewn rhai meysydd
4. Yn llwyr arddangos Safonau Rhagorol o Waith sydd uwchlaw Safonau'r Diwydiant

Unwaith y cytunir ar y marciau ar gyfer pob agwedd ar y meini prawf, ar gyfer pob cystadleuydd, caiff y rhain eu trosi er mwyn cael sgôr terfynol unigol, wedi'i phwysoli, ar gyfer pob cystadleuydd.

Mae panel o feirniaid wedi'u penodi o'r diwydiant, y colegau a'r darparwyr hyfforddiant. Caiff penderfyniadau'r beirniaid eu cymedroli'n annibynnol a'u hansawdd eu sicrhau cyn iddynt gael eu cadarnhau.

## Adborth a chydnabyddiaeth

Bydd adborth llafar, yn unigol ac mewn grŵp, yn cael ei roi ar ddiwedd y gystadleuaeth. (Ni roddir adborth ysgrifenedig)

Ni fydd unrhyw ganlyniadau na gwobrau'n cael eu dyfarnu ar y diwrnod oherwydd bydd angen sicrhau ansawdd y marcio.

Bydd Tystysgrifau Cyfranogi'n cael eu dosbarthu ar y diwrnod.

Bydd enillwyr medalau'n cael eu gwahodd i Achlysur Dathlu a gynhelir ar 19 Mawrth 2020 yn Neuadd Sophia, Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9XR rhwng 12pm a 5pm, lle y bydd y Gwobrau Cyntaf, Ail a Thrydydd yn cael eu cyflwyno. https://www.sophiagardens.wales/venue/the-sophia-hall.html

## Arweinwyr y Gystadleuaeth

**Prif Gyswllt**

Am wybodaeth gyffredinol am gystadlaethau, cysylltwch â

Michelle Jones 01978 267105 / 01978 267654 michelle.jones@cambria.ac.uk

Rona Griffiths Ffôn:07730192700 E-bost: rona.griffiths@cambria.ac.uk